10.02.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Carys yn cynnig tips ar adnewyddu tai

Mae'r cyflwynydd teledu o Abertawe Carys Davies yn cyfuno ei harbenigedd mewn gwerthu tai a'i doniau cyflwyno yn y gyfres lwyddiannus **Tŷ Am Ddim** sy'n ymddangos ar S4C dros yr wythnosau nesaf.

"Mae'n gysyniad gwych - rydych chi'n cymryd dau berson nad ydyn nhw erioed wedi cyfarfod o'r blaen ac yn rhoi tŷ iddynt - naill ai trwy arwerthiant (fel yn y gyfres gyntaf) neu, yn yr ail gyfres, rydyn ni'n gwneud cynnig ar eu rhan," esboniodd Carys.

"Maen nhw'n dod yn bartneriaid busnes am chwe mis er mwyn paratoi'r tŷ i'w werthu. Maen nhw'n cael cyllideb, ac mae rhaid iddyn nhw wella'r eiddo o fewn y gyllideb ac o fewn amserlen benodol."

Astudiodd Carys yn y *London School of Economics* a *City University* cyn dychwelyd i Abertawe ym 1995 lle dechreuodd ar yrfa yn y cyfryngau.

Ei swydd gyntaf oedd cyflwyno rhaglen Heno ar S4C ac yna sawl rôl cyflwyno arall, gan gynnwys 'In The Picture' i BBC Wales.

Ar ôl teithio a chyflwyno am nifer o flynyddoedd, a hithau gyda diddordeb yn y diwydiant datblygu tai a'r farchnad rhentu, yn 2005 sefydlodd hi'r cwmni Perfect Pads, fel asiantaeth gosod tai i ddechrau cyn symud mewn i'r busnes o werthu tai.

Erbyn nawr mae hi'n byw yn Abertawe gyda'i theulu - gan gynnwys dau fab 14 ac 17 oed.

Mae Carys yn cynnig y 'top tips' isod ar gyfer pobl sydd am brynu tŷ i'w hadnewyddu a'i werthu...

1. Wrth brynu, mae'n bwysig meithrin perthynas dda gyda'ch asiant lleol. Cofrestrwch eich manylion - efallai na fyddan nhw'n gallu dod o hyd i'ch tŷ delfrydol ar unwaith ond trwy gadw mewn cysylltiad a gwybod beth yn gwmws da chi'n edrych amdano, gallan nhw gadw llygad allan am eich tŷ delfrydol. Ac mae'n debygol y byddwch yn dod i wybod yn gynt am dai newydd.

2. Wrth adnewyddu tŷ o gyfnod penodol, ceisiwch achub neu gynnal unrhyw nodweddion sy'n perthyn i gymeriad y tŷ. Maen nhw'n gydnaws ag arddull eich tŷ a gallan nhw ychwanegu gwerth. Os nad ydych chi'n eu hoffi, peidiwch â'u taflu - beth am ystyried eu gwerthu? Bydd pobl eraill yn talu amdanynt.

3. Defnyddiwch unrhyw gysylltiadau sydd gennych. Teulu neu ffrindiau sy’n gallu helpu ac felly yn cadw costau i lawr, yn enwedig os oes ganddyn nhw grefft.

4. Rhywbeth i’w gadw mewn cof yw, os y’ch chi am adnewyddu tŷ er mwyn gwneud elw, gwnewch y gwaith sy’n angenrheidiol yn unig. Nid chi fydd yn byw yn y tŷ yn y pendraw!

5. Prynwch yn graff – peidiwch â thalu gormod am eich tŷ ... mae yna bob tro dêls eraill i’w hystyried!

Yn y rhifyn nesaf o Tŷ am Ddim mae’r gweithiwr ffatri Dan a’r plymwr dan hyfforddiant Peter yn mynd i daclo tŷ yn Sgiwen ger Castell Nedd. Mae ganddynt chwe mis a chyllideb o £15,000 i drawsnewid y teras tair ystafell wely hwn yn balas bach.

Mae’r farchnad yn gefn iddynt ac mae prisiau tai ar gynnydd. Ond dim ond 18 oed yw Peter, sy'n hoff o rygbi, ac mae Dan yn 36 ac yn dad i ddau. A fydd y bwlch rhwng y cenedlaethau yn rhwystr neu'n help? A fydd llwyddiant neu bydd y tŷ yn mynd yn ôl i’r ocsiwn.

Gwyliwch **Tŷ Am Ddim** ar nos Fercher, 23 Chwefror i weld pa mor llwyddiannus fydd Dan a Peter.

Mae cyfle i ddal i fyny gyda’r ddwy raglen gyntaf yn y gyfres ar S4C Clic. Yn y bennod gyntaf mae dwy athrawes yn cael tŷ yn Aberdâr. Oes gan frenhines 50au Lisha a Shannon yr hyn sydd ei angen i adnewyddu tŷ cyfan - neu a fydd dagrau a stranciau yn anfon y tŷ hwn yn syth yn ôl i'r arwerthiant?

Yn y cyfamser bydd y trydanwr Aaron a’r myfyriwr Wil yn taclo tŷ yn nhref Llandudno. Mae angen cegin newydd, ystafell ymolchi newydd ac ailweirio yn y tŷ. A fydd y ddau fachgen yn llwyddo ennill digon o arian ar gyfer blaendal ar eu cartrefi eu hunain?

**Tŷ Am Ddim**
**Nos Fercher 23 Chwefror 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Chwarel ar gyfer S4C**

10.02.2020

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Property expert Carys offers some top renovation tips

Swansea TV presenter Carys Davies combines her expertise in the property market with her talent for presenting in the award-winning **Tŷ Am Ddim** series now showing on S4C.

"It's a great concept – you take two people who have never met before and they are given a property – either through auction in the first series, or we bid on their behalf in the second series," explained Carys.

"They become business partners for six months to prepare their property for sale. They are given a budget, and within that time frame and budget they must do the property up."

Carys studied at the London School of Economics, and City University but returned to Swansea in 1995 where she began a career in media.

Her first presenting job was on S4C's nightly magazine programme Heno, followed by other presenting roles including In the Picture for BBC Wales.

After travelling and presenting for a number of years, and having an interest in the property development and rental market, in 2005 she founded Perfect Pads, firstly as a lettings agency before moving into sales.

Carys is married and lives near Swansea with her family including her two sons aged 14 and 17.

Here are some top tips from Carys for people who are looking to buy property and renovate for sale…

1. When buying it's important to build a good relationship with your local agent. Register your details, they may not be able to find you your ideal property on the first instance but keeping in contact, knowing your criteria, they can keep an eye out for your dream home and you probably find out about new properties sooner.

2. When renovating a period property, try and salvage or maintain the character features, they are in keeping with the style of your house and can add value. If you do not like them, do not throw away! Sell them on - other people will pay for them.

3. Use your contacts. Family or friends who can lend a hand help keep costs down, especially if they have a trade.

4. Bear in mind that if you are renovating a house for a profit, only do what is required, You won't be living there yourself!

5. Buy smart, don't pay too much for your property….. there are always other deals.

This week in **Tŷ Am Ddim**, factory worker Dan and apprentice plumber Peter have been given a house in Skewen. They have six months and a budget of £15,000 to transform this three-bedroomed terrace into a little palace.

They have the market behind them and house prices are on the up. But rugby loving Peter is just 18 years old and Dan is 36 and a father of two. Will the generation gap prove a hindrance or a help? Will they both pull together or leave the house to face its fate at auction?

Tune in to **Tŷ Am Ddim** on Wednesday, 23 February to see how Dan and Peter get on.

Catch up on the first two programmes in the new series on S4C's on demand service S4C Clic. In the first episode, two teachers are given a house near Aberdare. Do 50s' queen Lisha and Merthyr born Shannon have what it takes to renovate a whole house? Or will tears and tantrums send this house straight back to auction?

Meanwhile electrician Aaron and student Wil have been given a house in Llandudno. Will it be screwdrivers at dawn or will the lads work together to earn enough money for a deposit on their own homes?

**Tŷ Am Ddim**
**Wednesday 23 February 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Chwarel production for S4C**